

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**  
**DYDD MAWRTH, 15 IONAWR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Evans (Is-gadeirydd yn Cadeirio)**

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, Cindy Hinds, Dave Hughes, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Patrick Heesom (yn lle Ray Hughes)

**CYFRANWYR:** Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, y Cynghorydd Carolyn Thomas, Cynghorwyr: Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd ac Economi), Rheolwyr Rhwydwaith Priffyrdd, Rheolwr Fflyd, ac Uwch Swyddog Technegol a Pherfformiad.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**41. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd dim.

**42. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018.

**Materion yn Codi**

Gan gyfeirio at ei sylwadau ar Orfodi'r Amgylchedd, dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton y gallai nifer o grwpiau a sefydliadau lleol gael eu ymgysylltu mewn digwyddiad 'glanhau sbwriel sydd wedi'i waredu' o amgylch Cei Connah yn ystod mis Mawrth.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**43. DIWEDDARIAD METRO GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad i ddarparu diweddariad ar ddatblygiad Prosiect Metro Gogledd Ddwyrain Cymru, gan gynnwys y cynigion diweddaraf i Lywodraeth Cymru am gyllid. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac eglurodd er mwyn darparu datrysiad cludiant cynaliadwy hirdymor, roedd yn hanfodol bod pob math o gludiant yn cael eu integreiddio'n llwyddiannus. Yn allweddol i hyn oedd cynnal a hyrwyddo Gwasanaeth Cludiant

Cyhoeddus cynaliadwy, fforddiadwy ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd gyda chysylltiadau i Sir Y Fflint i gyd a'r rhanbarth ehangach. Mae'r cynigion yn darparu llwyfan y gellir ehangu cwrpas i ddarparu datrysiad cludiant ar gyfer ardaloedd cyflogaeth allweddol lleol, yn arbennig Brychdyn a safle Airbus gerllaw, yn darparu mynediad di-dor i bobl sydd yn dymuno gweithio yn yr ardal ac sy'n byw mewn ardaloedd eraill o Ogledd/Canolbarth Cymru a Gogledd-Orllewin Lloegr.

Dyweddodd y Prif Swyddog bod cynigion eraill wedi'u cyflwyno'n ddiweddar i'r 'Cyllid Cludiant Lleol' ar gyfer cyllido yn y cyfnod 2018-2021. Mae'r Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid gan Llywodraeth Cymru o £1,373,500 yn 2018/19 gydag ymrwymiad pellach o £2,675m yn 2019/20 a £1,6025m yn 2020/21 ar gyfer darparu cynlluniau eraill a nodir yn yr adroddiad.

Gwahoddodd y Prif Swyddog yr Uwch Reolwr Technegol a Pherfformiad i roi adroddiad ar gynnydd ar y cynlluniau parhaus o fewn y prosiect ehangach:

- Mynediad at gyflogaeth - isadeiledd teithio llesol a safleoedd bysiau ar draws Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
- Datblygiadau ar gyfer twf teithwyr – coridor Glannau Dyfrdwy
- Cylchfan B5128 Queensferry at Ffin Sir Ddinbych
- Gosod signalau ar Gylchfan Parkway – Parth 2 Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.
- Llwybr Beiciau A5104 Brychdyn i Saltney Cam 2.

Dyweddodd y Prif Swyddog bod ymgynghoriad ar y cynlluniau wedi digwydd gyda'r Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy, busnesau ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Cynghorau Tref a Chymuned Lleol, aelodau etholedig a Llywodraeth Cymru. Bydd ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn cael ei gyflawni yn y dyfodol agos.

Cydnabu'r Prif Swyddog y sylwadau gan y Cynghorydd Vicky Perfect ar y cynnig Metro Gogledd Ddwyrain Cymru a chyswllt i orsaf rheilffordd y Fflint, a dywedodd bod pwysigrwydd y rheilffordd ar yr arfordir yn cael ei chydnabod.

Soniodd y Cynghorydd Paul Shotton am yr anhawster y mae rhai bobl wedi'u profi wrth geisio cael mynediad at Barc Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy. Siaradodd o blaid y cynllun am isadeiledd teithio llesol a gorsaf fysiau drwy Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a chroesawodd yr uwchraddio'r gwasanaeth gwennol gyda mwy o bwyslais ar arbed ynni. Gofynnodd am ddiweddariad ar y cynllun parcio a theithio. Dywedodd y Swyddogion bod gwaith yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun parcio a theithio ac roedd ar hyn o bryd yn y cam cynllunio, a dylai cyllid gael ei sicrhau yn y dyfodol agos. Mae safle addas wedi'i nodi ac mae'r gymuned fusnes o blaid cynllun parcio a theithio. Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y byddai'r cynllun parcio a theithio yn mynd i'r afael â thagfeydd a darparu gwasanaeth gwennol rheolaidd.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at gysylltu â gorsaf Shotton i alluogi mynediad at ganol Parc Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy yn ogystal â'r cyswllt rhwng y Fflint a Shotton, a fyddai'n galluogi mynediad pellach at gyflogaeth o Ogledd y Sir.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom ei fod yn cefnogi'r cydsyniad y Metro Gogledd Ddwyrain Cymru, ond mynegodd bryderon nad oedd ymgynghoriad priodol wedi bod gydag Aelodau a phwysleisiodd y pwysigrwydd o'r isadeiledd ehangach y Sir. Gan gyfeirio at y rhwydwaith trafniadaeth integredig, soniodd am yr angen am gysylltiadau o wythiennau prif ffyrdd (A55 ac A548) i gysylltu â'r Parc Busnes Glannau Dyfrdwy. Hefyd, mynegodd nifer o bryderon ynghylch llwybr coch y dywedodd a fyddai'n arwain at rwystrau yn Llaneanrain. Gwnaeth sylwadau i'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru a theimlai mai'r datrysiad fyddai pont newydd o'r gylchfan yn ffordd osgoi Shotwick at y gyffordd yn Bagillt/Fflint. Dywedodd nad oedd y llwybr coch yn gwneud dim i Gei Connah a Fflint. Ychwanegodd bod yr adroddiad yn nodi bod £13 miliwn yn cael ei ddefnyddio i ddatrys materion penodol yng Nglannau Dyfrdwy, ond ddim ar gael ar gyfer gweddill ardal y Cyngor, a mynegodd safbwynt bod gweddill Sir y Fflint yn cael ei fethu gan y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas bod y Pwyllgor wedi ystyried y llwybrau fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac wedi cefnogi'r llwybr coch.

Hefydd dywedodd y Cynghorydd Shotton bod y Prif Weinidog hefyd yn cefnogi'r llwybr coch, a groesawyd.

Croesawodd y Cynghorydd Chris Dolphin yr adroddiad ond dywedodd bod hyn yn swm sylweddol o gyllid a oedd wedi seilio o amgylch Glannau Dyfrdwy. Cymrodd y cyfle i roi sylw ar Stryd Fawr Treffynnon, a chyfeiriodd bod Llywodraeth Cymru angen cefnogi gwaith gwella. Cytunodd y Swyddogion i drafod y materion a godwyd gan y Cynghorydd Dolphin ynghylch Stryd Fawr Treffynnon yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd Owen Thomas a fyddai bws gwennol yn ystyried angen gweithwyr sydd yn gweithio oriau shift ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Eglurodd yr Uwch Reolwr Technegol a Pherfformiad bod patrymau gweithio shift wedi cael eu hystyried a byddai'r gwasanaeth gwennol yn adlewyrchu patrymau shift. Hefyd dywedodd y byddai goleuadau stryd yn cael eu darparu ar lwybrau beicio ar draws yr afon mewn ymateb i'r adborth a ddaeth i law.

Gofynnodd y Cynghorydd Haydn Bateman am ddiweddariad ar y llwybr beiciau yr Wyddgrug i Frychdyn. Eglurodd y Prif Swyddog bod cyllid sylweddol wedi dod i law a dywedodd y gellir gwneud cynnig mewn cyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor i ddiweddarau ar y cynnydd.

Cododd y Cadeirydd ymholiad ar y lôn fws drwy Shotton a gofynnodd sut y byddai hyn yn ffitio i mewn. Dywedodd y Swyddog bod arolwg cynllunio cludiant wedi'i gyflawni a bod digon o le i roi lôn bws o gyffordd Asda hyd at oleuadau traffig Shotton.

Croesawodd y Cynghorydd Andy Dunbobbins yr adroddiad mynegodd ddiolch i'r Prif Swyddog a'i dîm ar y cynnydd sydd wedi'i gyflawni. Rhoddodd Sylw ar welliannau cadarnhaol ym Mharth 3 a chyfeiriodd at fanteision sydd i'w gael gan dwristiaeth o strategaeth trafniadaeth integredig ar gyfer Sir y Fflint. Gan gyfeirio at y cynllun parcio a theithio, gofynnodd os fyddai ffi am y

gwasanaeth. Dywedodd y Prif Swyddog mai'r bwriad yw y byddai'r gwasanaeth yn un talu ac arddangos gyda'r defnydd o drwyddedau yn cael eu caniatáu. Soniodd bod y mwyafrif o'r gymuned fusnes yn rhannu dull a delir i gynllun parcio a theithio.

Gofynnodd y Cynghorydd Cindy Hinds am ddiweddariad ynghylch amserlenni y 3 canolfan a chyfeirio at yr angen i sicrhau bod rhwydwaith bws wedi'u cysylltu â'r canolfannau a gorsafoedd trên. Cydnabu'r Prif Swyddog y sylwadau a dywedodd bod y llinell Bidston yn allweddol i ddatblygu hyn. Ychwanegodd bod hyn yn ddyhead tymor byr.

Ailadroddodd y Cynghorydd Patrick Heesom ei bryderon bod ardaloedd mawr o'r sir ddim yn cael eu hymgyngori ar y cynigion, a bod angen strategaeth ar gyfer gweddill y Sir. Hefyd ailadroddodd ei sylwadau na fyddai llwybr coch yn datrys unrhyw un o'r materion o ran mynediad at Barc Ymgynghori Glannau Dyfrdwy o ardaloedd eraill o'r Sir. Hefyd dywedodd nad oedd cefnogaeth ar y cynigion am ddatblygiad o Borthladd Mostyn.

Sicrhaodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y Pwyllgor bod cynlluniau "ar y cyd" lle bo'n bosibl, ar gyfer gweddill y Sir a bod cyllid ar gyfer datblygiad ar draws Sir y Fflint yn cael ei sicrhau. Dywedodd y byddai ymgynghoriad ar gael ar-lein.

Cytunodd yr Aelodau y byddai ymgynghoriad pellach yn fanteisiol a chroesawodd yr ymrwymiad o ymgynghoriad ar-lein.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod cynnydd yn cael ei wneud ar Ddatrysiad Cludiant Integredig Ardal Glannau Dyfrdwy a'i gysylltiadau â chynlluniau ehangach Metro'r Gogledd-ddwyrain gan Lywodraeth Cymru.
- (b) Bod y dyfarniad diweddar o gyllid Cludiant Lleol y Llywodraeth Cymru yn cael ei nodi; a
- (c) Bod ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal gyda'r gymuned busnes ehangach.

#### **44. CONTRACT FFLYD – DIWEDDARIAD**

Cyflwynodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad ar y cynnydd o Gytundeb Fflyd sir gyfan dwy flynedd ar ôl ei gweithredu, a gwerthusiad yr arbedion effeithlonrwydd a ddarparwyd gan newid yn y ffordd o ddarparu.

Rhoddodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at yr ystyriaethau allweddol, fel y nodwyd yn yr adroddiad, ynghylch manteision ariannol a rhagwelir a'r sefyllfa cyfredol, a'r manteision gwasanaeth a rhagwelir. Dywedodd bod y rhan fwyaf o fanteision gwasanaeth a rhagwelir wedi'u cyflawni a bod y fflyd wedi cael eu moderneiddio gyda cherbydau newydd. Cyfrifwyd cyfanswm yr arbedion cronus y Cytundeb Fflyd erbyn yr 2il Flwyddyn

(17/18) yn £1,134,912, fodd bynnag, roedd hyn cynnwys sefyllfa well o arbedion a ddarparwyd gan brosesu llai o anfonebau.

Dywedodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd bod adolygiad Archwiliad Mewnol o'r cytundeb wedi'i gyflawni ym mis Mai 2018, fel arfer da, ac wedi nodi meysydd lle'r oedd yr Awdurdod angen gweithio'n agosach i sicrhau bod gweithgareddau yn dod yn rhan o brosesau adolygu maes gwasanaeth. Ychwanegodd bod y cyngor a gwybodaeth gan y Tîm Fflyd a'r contractwr partner yn cael eu gweithredu i wella defnydd ac arbedion effeithlonrwydd. Mae Cynllun Gweithredu mewn lle i ddatrys yr holl materion dros ben yn yr adroddiad.

Gan gyfeirio at foderneiddio fflyd cerbydau'r Awdurdod yn dilyn darpariaeth o gerbydau newydd gan y partner, dywedodd y Prif Swyddog bod hyn wedi arwain at lai o gerbydau yn gweithredu nag oedd yn y gorffennol a gwell effeithlonrwydd gyda llai o waith cynnal a chadw ac atgyweirio ei hangen. O ganlyniad, mae cynigion yn cael eu hystyried i alluogi staff mewnol y gweithdy sydd yn cyflawni gwaith cynnal a chadw ar y cerbydau ar ran y contractwr, i gyflawni busnes trydydd parti drwy'r gweithdy gyda'r Awdurdod i dalu am yr oriau sy'n cael eu gweithio.

Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad i'r Prif Swyddog a'i dîm am eu cynnydd a arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd hyd yma o ganlyniad i drefniadau gweithio fflyd newydd.

#### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

#### **45. PWYNTIAU GWEFRU CEIR**

Cyflwynodd y Prif Swyddog adroddiad i alluogi'r Pwyllgor ystyried y strategaeth ddrafft. Rhoddodd wybodaeth gefndirol a chyfeiriodd at alw cynyddol am gerbydau trydan yn y DU, a dywedodd ei bod yn hanfodol i'r Awdurdod ymgysylltu â thechnolegau newydd i leihau'r risg o gefnu ar y cyhoedd o ran twristiaeth, datblygiad preswyl a thwf busnes.

Dywedodd y Prif Swyddog bod gan y Cyngor swyddogaeth i ddatblygu strategaeth i hwyluso gweithredu Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan, ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyflwyno Pwyntiau Gwefru priodol ac effeithiol mewn lleoliadau strategol ar draws y Sir. Byddai'r Awdurdod yn cyflawni hyn drwy wneud lleoliadau ar gael, a thrwy sicrhau bod y rhwydwaith cyflenwad trydan lleol yn ddigonol i gymhwyso'r galw ychwanegol. Byddai'r dull hwn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a darparu manteision ariannol hirdymor posibl ar gyfer y Cyngor o'r trefniadau prydles lleol. Byddai strategaeth cymeradwy yn caniatáu'r Cyngor i wneud cynnig am ffrwd gyllido ar gael gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth cenedlaethol i helpu awdurdodau lleol sicrhau rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws y Sir.

Eglurodd y Prif Swyddog y gallai'r Awdurdod liniaru'r risg o effaith ar ei gyllid drwy fabwysiadu'r rôl 'galluogwr' i hwyluso gweithredu pwyntiau gwefru cerbyd trydan, yn hytrach na thybio'r rôl o ddarparwr uniongyrchol. Ailadroddodd y byddai'r dull hwn yn caniatáu'r Cyngor fynd i mewn i gytundeb prydles hirdymor

gyda chyflenwyr penodol a fyddai'n darparu posibilrwydd o incwm hirdymor. Byddai hyn yn cynnwys yr Awdurdod yn gwneud cynnig am gyllid gan Llywodraeth Cymru i uwchraddio'r rhwydwaith cyflenwad trydan presennol ar y safleoedd hynny sydd ag achos busnes profedig. Hefyd gallai safleoedd gael eu blaenoriaethu oherwydd y posibilrwydd o integreiddio cyfleusterau ynni ategol megis PV Solar (porth car solar, casgliad solar) a storfa batri. Dywedodd y Prif Swyddog ei bod yn hanfodol bod agweddau trefol a gwledig y Sir yn cael eu hystyried wrth hwyluso'r twf am rwydwaith gwefru Cerbydau Trydan.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn gweithredu fflyd, ar hyn o bryd o tua 315 o gerbydau, a thra bydd yn ceisio cyflawni bod y fflyd i gyd yn rhai trydan, mae'r dechnoleg batri sydd ar gael ar hyn o bryd yn cyfyngu ar yr ystod o gerbydau trydan. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio gyda'i chyflenwr fflyd i fonitro cyfleoedd i integreiddio cerbydau trydan i'w fflyd ei hun yn unol â thechnoleg batri gwell.

Roedd wedi gwahodd y Rheolwr Cymorth Rhwydwaith i roi adroddiad ar y prif ystyriaethau fel y nodir yn yr adroddiad ac i ymateb i'r cwestiynau a sylwadau a godwyd gan yr Aelodau.

Roedd yr Aelodau o blaid y cynigion y dylai'r Awdurdod weithredu fel 'galluogwr yn hytrach na darparwr uniongyrchol o bwyntiau gwefru trydan a dylid hwyluso'r uwchraddio'r rhwydwaith cyflenwad trydan presennol mewn lleoliadau hyfyw economaidd ar y rhwydwaith priffyrdd a lleoliadau allweddol eraill yn y Sir. Hefyd, roedd yr Aelodau yn cefnogi'r lleoliadau strategol a nodwyd ar draws portffolio asedau Sir y Fflint, a fyddai angen gwaith pellach i flaenoriaethu cynigion i gael mynediad at unrhyw gyllid Llywodraeth Cymru neu lywodraeth cenedlaethol i osod y seilwaith trydan angenrheidiol ar gyfer pwyntiau gwefru yn y lleoliadau hyn.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Roedd yr Aelodau o blaid y cynigion y dylai'r Awdurdod weithredu fel 'galluogwr' yn hytrach na darparwr uniongyrchol o bwyntiau gwefru trydan a dylid hwyluso'r uwchraddio'r rhwydwaith cyflenwad trydan presennol mewn lleoliadau hyfyw economaidd ar y rhwydwaith priffyrdd a lleoliadau allweddol eraill yn y Sir.
- (b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lleoliadau strategol a nodwyd ar draws portffolio asedau Sir y Fflint, a fyddai angen gwaith pellach i flaenoriaethu cynigion i gael mynediad at unrhyw gyllid Llywodraeth Cymru neu cenedlaethol i osod y seilwaith trydan angenrheidiol ar gyfer pwyntiau gwefru yn y lleoliadau hyn.
- (c) Bod yr Awdurdod yn parhau i geisio cyflawni cerbydau gwasanaeth "Fflyd Trydan Cyfan" yn unol â symud ymlaen i dechnoleg batri.

## 46. CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19 – MONITRO CANOL BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad i ddangos crynodeb o'r perfformiad hyd at ganol blwyddyn 2018/19 o ran blaenoriaeth Cynllun y Cyngor, 'Cyngor Cefnogol', sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

Dywedodd bod yr adroddiad canol blwyddyn yn dangos bod 88% o'r gweithgareddau yn gwneud cynnydd da a bod 81% yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd. Roedd 79% o ddangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori ar y targed. Mae risgiau yn cael eu rheoli, gyda 18% yn unig wedi'u hasesu fel rhai mawr. Mae'r adroddiad yn adroddiad am eithriadau ac felly'n canolbwyntio ar y meysydd sy'n tan-berfformio.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) at y risgiau sylweddol a nodwyd ar gyfer y Pwyllgor ynghylch tywydd drwg ar y rhwydwaith priffyrdd. Dywedodd bod y patrwm risg wedi cynyddu oherwydd difrifoldeb gaeaf 2017/18, gyda chyflwr ffyrdd ar draws y Sir wedi ei effeithio'n ddrwg ar geudyllau a diffygion ar arwyneb y ffordd. Mae cyllid, adnoddau a chontractwyr ychwanegol wedi eu lleoli ar draws y Sir yn ystod yr haf i atgyweirio'r rhwydwaith fel yr oedd y diffygion yn cael eu nodi. Roedd hyn yn cynnwys blaenoriaethu ail-wynebu a chynlluniau cyfalaf cyweirio. Eglurodd y Prif Swyddog er bod gwaith atgyweirio sylweddol a pharhaol i gael gwared â nifer o ddiffygion ac i wella cyflwr y ffyrdd gan leihau'r risg ar y rhwydwaith wedi'i gyflawni, efallai nid yw hyn yn ddigonol i atal y dirywiad yn y rhwydwaith. Fodd bynnag, dywedodd y Prif Swyddog bod cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i alluogi'r Awdurdod i gyflawni cynlluniau sylweddol eleni.

Mynegodd y Cynghorydd Owen Thomas bryderon ynghylch y risgiau cysylltiedig â diogelwch y cyhoedd oherwydd ceudyllau ar rai ffyrdd yn ei Ward. Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Thomas i drafod y pryderon penodol a godwyd gan y Cynghorydd Thomas ar ôl y cyfarfod.

Ailadroddodd y Cynghorydd Chris Dolphin y pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Thomas ynghylch amodau gwael rhai o'r ffyrdd a rhoddodd sylw at y dull o archwilio a wneir i adnabod y diffygion. Cydnabu'r Cynghorydd Carolyn Thomas y pwynt a wnaethpwyd ac eglurodd bod ôl-groniad o waith atgyweirio i ddod â'r ffyrdd i safon gofynnol, fodd bynnag, heb gyllid digonol i gyflawni'r gwaith, byddai'r rhwydwaith yn parhau i ddirywio.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) at y risg mwyaf sef na allai cyllid gael ei sicrhau ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd â blaenoriaeth, fel y nodwyd yn adran 1.11 o'r adroddiad. Dywedodd bod gweithredu Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd A Dŵr a oedd yn gofyn i'r awdurdod lleol weithredu fel Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy o 7 Ionawr 2019 ymlaen, yn gosod dyletswyddau pellach ar y tîm Rheoli Perygl Llifogydd heb gyllid ychwanegol ar gael gan Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom na ddylid disgwyl i awdurdodau lleol gyflawni dyletswyddau ychwanegol heb gyllid digonol a mynegodd y safbwynt bod Aelodau lleol angen bod yn rhan o drafodaethau cyn cais ar gyfer materion sy'n ymwneud â chynllunio. Pwysleisiodd y Cynghorydd Carolyn

Thomas bod cynrychioliadau cryf wedi'u gwneud ynghylch yr angen am gyllid i fod ar gael.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Haydn Bateman ynghylch cynllun lliniaru llifogydd yr Wyddgrug, eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) bod cynllun mwy fforddiadwy mewn lle, ond nad oedd amserlen ar hyn o bryd i'w weithredu.

Diolchodd y Cynghorydd Paul Shotton am y gwaith atgyweirio a gyflawnwyd ar geudyllau Cei Connah. Cyfeiriodd at awgrym mewn cyfarfod blaenorol bod angen edrych ar fathau amgen o ddeunyddiau ar gyfer trin arwyneb ffyrdd, a gofynnodd os oedd unrhyw ddatblygiad wedi bod mewn perthynas â hyn. Eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod diweddariad ar gynnydd yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

#### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Monitro Hanner Blwyddyn Cynllun y Cyngor 2018/19.

#### **47. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried. Dywedodd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ddydd Iau, 26 Chwefror 2019, er mwyn ystyried yr eitemau canlynol:

- Monitro Cynllun y Cyngor Q3
- Cludiant i'r Ysgol – Llwybrau Peryglus

Eglurodd yr Hwylusydd mai'r bwriad yw cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor ar 9 Ebrill, ym Mharc Gwepa, Cei Connah, a bydd hyn yn cael ei gadarnhau i Aelodau ar ôl cytuno.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei newid; a
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

#### **48. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd dau aelod o'r wasg a dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.45 am)

.....  
**Cadeirydd**